FfMLlW 29

FFORWM MYNEDIAD LLEOL WRECSAM

COFNODION A GADARNHAWYD

Nawfed cyfarfod ar hugain o'r fforwm a gynhaliwyd yng Nghanolfan Fenter Brymbo a Thanyfron, Ffordd y Chwyth, Brymbo, Wrecsam, LL11 5BT ar Ddydd Iau, 8 Mai 2008

13/08 PRESENOLDEB AC YMDDIHEURIADAU

Yn bresennol:

CADEIRYDD	YSGRIFENNYDD
Clive Menzies	Emma Haldane

AELODAU	HEB FOD YN AELODAU
Sue Gittins	Martin Howorth
John Marchant	Ken Monti
Gerald Moss	Alison Whitley (ceidwad)
Mavis McBride	Tim Stratton
Margaret Myrphy	Peter Cade (RECAP)
Mabyn Pickering (dirprwy gadeirydd)	Matt Strickland
Shelagh Roberts	

Ymddiheuriadau: John Cooper-Poole, Edward Wardle, Mike Crawshaw, Alun Price (CCC), Tim Rosselli

14/08 Mynediad at Ddyfroedd Mewndirol

Rhoddodd Matt Strickland, Ymgynghorydd Polisi / Proses Hamdden a Mordwyo Asiantaeth yr Amgylchedd Cymru, gyflwyniad addysgiadol am waith sy'n digwydd ar hyn o bryd yng Nghymru.

15/08 Materion yn codi o gofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 8 Chwefror 2008
Materion Traws Ffiniol

Roedd Wrecsam yn awyddus i ffurfio cysylltiadau agosach gyda FfMLl eraill. Un awgrym oedd ymuno â gweithgorau i edrych ar fater llwybrau traws ffiniol rhwng Wrecsam a siroedd cyfagos yn unig. Teimlwyd bod hyn yn ddull o annog gweithio agosach. Awgrymwyd hefyd y gallai y grwpiau edrych ar y darlun ehangach ac efallai wneud awgrymiadau ar gyfer uwchraddio statws llwybrau i greu teithiau cerdded cylchol o amgylch pentrefi, neu gylchdeithiau llwybrau ceffyl.

Anfonwyd llythyrau at ysgrifenyddion FfMLl Sir Ddinbych, Sir y Fflint, Powys a Swydd Caer. Ymatebodd Powys gan ddatgan bod ganddynt ddiddordeb mewn cyfranogi ond byddai'n well ganddynt aros hyd nes y byddai eu haelodau newydd yn eu swyddi yn dilyn ailbenodiadau aelodau yn hwyrach yn y flwyddyn.

16/08 Adroddiad gan Geidwaid Mynediad

- Adroddodd Alison y bu'n ymwneud llawer â phrosiect llwybr Coedpoeth gan weithio'n agos â Groundwork, Wrecsam a Sir y Fflint.
  Gwelodd y prosiect welliannau llwyddiannus i'r rhan fwyaf o lwybrau'r ardal. Y cam nesaf oedd llunio rhaglen arwyddbyst a chynllun mabwysiadu llwybr. Bydd yn bresennol mewn cyfarfodydd gyda Chyngor Cymuned Gwersyllt a phobl leol eraill wrth baratoi ar gyfer prosiect llwybrau eleni.
- Anfonwyd llythyrau atgoffa at dirfeddianwyr sydd wedi cael materion ynglŷn â chnydau ac aredig yn y blynyddoedd a fu.

Cyflwynodd Alison adroddiad gan y ceidwaid Dave Smith a Sion Roberts:

- Adroddodd Dave fod arolygu eisoes yn digwydd ar MPGG Mai 2008 a dylai gwaith fod wedi cael ei gwblhau ar lwybr Ffordd Clawdd Wat bron yn barod. Cwblhawyd pob gwaith ar lwybr Clawdd Offa. Yn ddiweddar gwnaed arolwg llawn o Lwybr Maelor a chyflawnwyd gwaith hanfodol.
- Yn ddiweddar mae Dave hefyd wedi ail-ddylunio baner yr arwyddbost a gobeithia ei gweld yn cael ei chyflwyno yn y prosiect llwybr cymunedol nesaf. Mae gwedd newydd ffermydd Tir Gofal ar fin dod ac mae'n paratoi i'w harolygu'n fuan.
- Adroddodd Sion y byddai contractwr yn dechrau strimio oddeutu 60 o lwybrau troed a llwybrau ceffyl ledled y sir. Bydd y llwybrau'n cael eu strimio eto ym mis Awst fel rhan o'r rhaglen strimio flynyddol.
- Daeth llawer o bobl ar daith gerdded Mynydd a Choedwig Rhiwabon ym mis Ebrill. Adroddodd Sion y byddai'n arwain taith arall o amgylch Llanarmon ym mis Medi. Gellir gweld manylion am hyn yn arweinlyfr Digwyddiadau Gwasanaeth Parciau, Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy Cyhoeddus Wrecsam.
- Yn fuan bydd Sion yn cyfarfod cyflenwyr pontydd i edrych ar bontydd amrywiol y mae angen eu cyfnewid neu osod dros y misoedd nesaf.
- Bydd contractwr llwybr y cyngor yn gosod llwybr bordiau wedi cael ei wneud allan o blastig wedi ei ailgylchu dros yr haf. O ganlyniad i'w leoliad trefol mae angen llwybr bordiau mwy gwrth fandalaidd a rhagwelir y byddai plastig wedi cael ei ailgylchu'n darparu ateb amgenach.
  Mae'r costau gosod yn debyg i rai o goed, ond cedwir costau cynnal a chadw i'r lleiafswm gan nad yw'r plastig yn dirywio.

Adroddodd Shelagh Roberts ei bod wedi derbyn galwad ffôn ynghylch uchder arwyddbost newydd a osodwyd yn Nhrefor. Teimlwyd ei fod yn rhy isel ac yn gwyro allan.

GWEITHREDU: Shelagh i leoli rhif y llwybr a gadael i John gael manylion pellach i ymchwilio

17/08 Adroddiad y Cadeirydd (yn cynnwys materion cenedlaethol)

Crynodeb o gyfarfodydd y Cadeiryddion a gynhaliwyd ym mis Mawrth a mis Ebrill 2008

Llythyr Ynghylch Gyrru Oddi ar y Ffordd

Fel y cynrychiolydd cenedlaethol, ysgrifennodd y cadeirydd lythyr at holl luoedd heddlu Cymru, yn amlygu gofidiau a deimlir yn genedlaethol ynghylch gyrru oddi ar y ffordd anghyfreithlon. Dim ond 3 a ymatebodd yn gadarnhaol.

Awgrymwyd fod FfMLl yn cysylltu'n agos gyda'r heddlu, swyddogion bywyd gwyllt a heddlu'r Weinyddiaeth Amddiffyn lle bo hynny'n briodol.

Modiwl Hyfforddiant

Cynhyrchwyd a dosbarthwyd pecyn hyfforddi/cyflwyno ar gyfer aelodau newydd i Ysgrifenyddion a Chadeiryddion FfMLl.

Cynlluniau Amaeth-Amgylcheddol

Mae adolygiad o gynlluniau Amaeth-amgylcheddol i ddigwydd, gyda mewnbwn yn angenrheidiol oddi wrth FfMLl'au.

Rhaid i unrhyw gynllun at y dyfodol, os yw'n debyg i Dir Gofal gyhoeddi llwybrau goddefol ar wefan, gydag CCC yn debygol o weithredu fel gwesteiwr.

Rhagwelir elfen o gydsyniad, ond dim ond yn erbyn amodau presennol ac ni ddylai ychwanegu unrhyw faich pellach ar y gymuned amaethyddol.

Pa gynllun bynnag a gyflwynir rhaid cael trefn blismona effeithiol.

Llwybrau Coll

O ganlyniad i argymhellion *Natural England* roedd yn aneglur pa gamau fyddai LlCC yn ei gymryd ynghylch Llwybrau Coll. Roedd pryder ynghylch a fyddai llwybrau a nodir cyn y dyddiad torri i ffwrdd o 1 Ionawr 2026 yn parhau i gael eu prosesu wedi'r dyddiad torri ffwrdd hwn. Cyn belled a byddai'r ceisiadau hyn yn cael eu prosesu yna cytunodd y mwyafrif i barhau gyda'r dyddiad torri ffwrdd. Er hynny, os nad oedd y llwybrau hyn yn mynd i gael eu prosesu yna dylid dileu'r dyddiad.

Cytunodd pawb y dylid annog y sector wirfoddol a'r unig gost fawr oedd y defnydd o'r gofrestrfa tir.

Gosod Gatiau Alïau

Bu'r ddeddfwriaeth hon mewn grym ers oddeutu blwyddyn. Mynegwyd rhai gofidiau am fynedfa at hamdden awyr agored. Teimlwyd y gallai'r Fforymau Mynediad Lleol fod yn llais annibynnol ac felly gryfhau'r broses. Felly dylai'r FfMLl fod yn gorff ymgynghorol statudol.

Gweithdrefnau Traed a Genau

Mynegwyd gofidiau am y modd yr ymdriniwyd â rhai o weithdrefnau clwy'r traed a'r genau ond, yn gyffredinol nid oedd gofidiau mawr. Mae'n amlwg bod rhai gwersi

wedi'u dysgu ond teimlwyd fod angen amddiffyniad cryfach mewn parthau wedi'u diogelu.

Ceisiadau Cynllunio
Defnyddir cais cynllunio safonol yn fuan. Er hynny, ar gyfer caniatâd cynllunio amlinellol, nid oes angen nodi os yw'r cais yn effeithio ar Hawl Tramwy Cyhoeddus. Gall hyn gyfyngu'r gallu i ddiogelu'r rhwydwaith Hawl Tramwy Cyhoeddus.

Dogfennau Arfordirol
Cyhoeddwyd safonau ar gyfer y llwybrau arfordirol a bydd copïau'n cael eu cylchredeg i FfMLl yn fuan.

Blaenoriaeth Ariannu LlCC
Y llwybr arfordirol yw prosiect blaenllaw LlCC gyda gwariant sy'n adlewyrchu hyn. Mae'n amlwg fod y cyllid oddi wrth LlCC wedi cynyddu'n arwyddocaol.
Y ffigurau a ddyfynnir yw:
Adnoddau Cyfalafol £1.5 miliwn – 2008/09. Mae hwn nawr wedi codi i £4 miliwn.

Mater Lleol
Adroddwyd yn y cyfarfod diwethaf fod nifer o gwynion wedi'u derbyn yn ddiweddar oddi wrth aelodau'r cyhoedd a chynghorwyr lleol yn ymwneud ag ardal Chwarel y Mwynglawdd.
Mewn adroddiad gan Pete Bland nodwyd mai'r ardal oedd yn peri gofid oedd i'r gogledd o'r llwybr i Chwarel y Mwynglawdd, wrth agosáu o Allt Eisteddfod - cyf grid - SJ 254 525.
Defnyddiwyd yr ardal dan sylw i fwydo gwartheg ac o ganlyniad mae'r ddaear wedi cael ei botsio'n drwm. Wrth i'r tir hwn fynd yn wlyb daeth yn amhosibl defnyddio'r llwybr cyhoeddus.

Roedd y fferm dan sylw'n rhan o gynllun amaeth-amgylchedd "Tir Gofal" ac yn agos at ardal SoDdGA. Dywedodd y ffermwr ei fod wedi cael ei gyfyngu gan gyfyngiadau SoDdGA o dan y cynllun Tir Gofal ynglŷn â lle y gall ganiatáu i'w wartheg fwydo.
Er hynny mae'r cynllun Tir Gofal yn cynnwys rhwymedigaeth traws-gydsyniad ynghylch hawliau tramwy cyhoeddus sy'n rhaid eu cadw mewn cyflwr da.
Cloddiwyd sianel ddraeniad gyda "phont" o bridd i gerdded drosti a chael mynediad at lwybrau 14 a 20, Er hynny mae'n dal yn anodd cerdded ar y tir ac mae rhai darnau mwdlyd iawn o hyd.
Bu swyddogion Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam mewn cysylltiad â Swyddfa Tir Gofal yn Yr Wyddgrug i geisio gwella'r sefyllfa. Mae trafodaethau'n parhau a gobeithir cael ateb yn y dyfodol agos.

18/08 Adroddiad yr Ysgrifennydd
Dim adroddiad y tro hwn.

19/08 Cynllun Gwella Hawliau Tramwy - Diweddariad
Yn y cyfarfod diwethaf cyflwynodd Martin Howorth, Rheolwr Parciau, Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy raglen o waith gwelliannau arfaethedig i'r CGHT am 2008/09.

Adroddodd nad oedd y Cynulliad wedi rhyddhau unrhyw arian hyd yma i'r awdurdod i helpu ariannu prosiectau. Gobeithiwyd y byddai modd defnyddio peth o'r arian hwn i wella mynediad at lwybrau ceffylau.

20/08 Cyngor Cefn Gwlad Cymru

Anfonodd Alun Price, CCC ymddiheuriadau. Dim adroddiad ar gael y tro hwn.

21/08 Amserlen Ailbenodiad FfMLl

Rhoddodd John Marchant wybod i'r fforwm fod ailbenodiadau newydd FfMLl i ddigwydd yn hwyrach eleni a chyflwynodd amserlen ailbenodi i aelodau.

Nid oedd prinder cerddwyr a marchogwyr eisiau lle ar y fforwm ar hyn o bryd. Gan ei fod yn hanfodol fod cydbwysedd rhwng 'defnyddwyr' a 'pherchenogion' ni allant ymuno os na ellir dod o hyd i'r un nifer o ffermwyr a landlordiaid.

Awgrymodd aelodau roi cyhoeddusrwydd i apêl i helpu i ddenu diddordeb ffermwyr a landlordiaid lleol i ymuno â'r fforwm.

GWEITHREDU: Erthyglau i'w gosod yng nghyhoeddiadau Cymdeithas y Tirfeddianwyr a Gwlad
John i gysylltu â Gwynfor (NFU) i gael syniadau

Rheoliadau FfMLl

Argymhellir fod pob FfMLl yn cynnal isafswm o 2 gyfarfod bob blwyddyn.

Mae'r dull o ethol cadeiryddion yn golygu colli cyfarfod i bob pwrpas. Awgrymodd y cadeirydd fod cadeiryddion newydd yn cael eu penodi yn y cyfarfod cyntaf. Hefyd awgrymodd fod ysgrifenyddion yn amlinellu'r weithdrefn hon er mwyn sicrhau y gall cadeiryddion posibl annerch yn y cyfarfod cyntaf.

22/08 Unrhyw Fusnes Arall

- **Prosiect Llwybr Troed**

  Cyn y cyfarfod roedd aelodau'r Fforwm wedi cymryd rhan mewn taith gerdded o amgylch pentref Brymbo i edrych ar y prosiect a mannau oedd angen gwelliannau pellach. Cytunwyd fod y daith wedi bod yn llwyddiannus a gofynnwyd cwestiynau i aelodau gan amryw o aelodau o'r gymuned.

  Diolchodd y cadeirydd i Alison am ei holl waith caled ynghylch y prosiect a llongyfarchodd John Marchant bawb a wnaeth brosiect Brymbo'n bosibl. Teimlwyd na allai cynlluniau fel hyn barhau heb gymorth y gymuned leol.

23/08 Eitemau ar gyfer yr Agenda nesaf

Ni chofnodwyd eitemau

24/08 Dyddiad a lleoliad y cyfarfod nesaf

Dydd Iau, 7 Awst 2008 am 4.00pm yn Neuadd Bentref Owrtyn, Owrtyn, Wrecsam.